



**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF  
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 3 Hydref 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd G Caple    Y Cyngorydd J Bonetto  
Y Cyngorydd D Grehan    Y Cyngorydd G Hughes  
Y Cyngorydd S Powell    Y Cyngorydd R Yeo  
Y Cyngorydd D Williams

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr J Bailey, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Ms L Coughlan, Cyfreithiwr  
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cyngorydd J James

**107    YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Rees, P. Jarman, W. Owen a J. Williams.

**108    DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**109    DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI  
DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**110    DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n

anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**111 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 5 Medi, 2019 yn rhai cywir.

**112 CAIS: 18/1290**

**Datblygu 34 annedd preswyl fforddiadwy, parcio ceir, tirlunio a gwaith cysylltiedig ar dir i'r gogledd o'r A473, Heol Creigiau, Llanilltud Faerdref, tir i'r gogledd o'r A473, Heol Creigiau, Llanilltud Faerdref.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Jon Hurley (Asiant)
- Mr Greg Price (Gwrthwynebydd)
- Mr Nick Silivestros (Gwrthwynebydd)
- Mr Graham Davies (Gwrthwynebydd)
- Mr Michael McGartland (Gwrthwynebydd)
- Mr Jonathan Thomas (Gwrthwynebydd)
- Mr Owain Griffiths (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Asiant, Mr J. Hurley, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebwyr.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys dau lythyr 'hwyr' a dderbyniwyd gan drigolion lleol yn gwrthwynebu'r cynnig; a thrydydd llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd gan y Rheolwr Datblygu Rhwydwaith yn Sustrans Cymru yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig.

Aeth y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu ymlaen i gyflwyno'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth hir **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar gwblhau Cytundeb Adran 106. Mae Adran 106 yn gofyn bod y tai yn y datblygiad yn parhau i fod yn dai fforddiadwy am byth, a bod cynllun rheoli cynefinoedd tymor hir yn cael ei gytuno.

**(Nodwch:** Doedd cynnig i ohirio'r cais hyd nes bod modd ystyried adroddiad ecoleg llawn ddim yn llwyddiannus)

**(Nodwch:** Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Grehan am gofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn cymeradwyo'r cais uchod).

**113 CAIS: 19/0256**

**Adeiladu ffordd fynediad breifat a giât i Fferm Garth Fawr (derbyniwyd arolwg traffig ar 31/07/19), Fferm Garth Hall, Heol y Comin Craig-Evan-Leyshon, Abercynon, Pontypridd.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Bowen (Ymgeisydd). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Ffyniant a Datblygu.

**114 CAIS: 19/0380**

**Cais adran 73 yn gofyn am ddiwygiadau i Amod 10 fel y'i gosodwyd ar ganiatâd cynllunio 'hybrid' 18/0314 (a roddodd (A) ganiatâd cynllunio llawn i ddymchwel adeiladau presennol ar Ystad Ddiwydiannol Garth Works o'r safle; a (B) amlinelliad caniatâd cynllunio ar gyfer depo, gan gynnwys adeilad warws, man stablau sy'n cynnwys cerbydau, is-orsaf, man golchi i lawr, cyfleuster sandio a thraciau cludo, gweithdy a swyddfeydd ategol, maes parcio wedi'i ddecio sy'n darparu 214 o leoedd parcio ceir, dymchwel ac adleoli pont droed a llwyfannau rheilffordd presennol, a thirlunio, priffyrdd a gwaith seilwaith mynediad cysylltiedig. Gan y bydd y diwygiadau arfaethedig i Amod 10 hefyd yn cael effaith ar Amodau 13, 14, 18, 19, 22, 24, 25, 26, 28, 31, 33 a 39 (fel y'u gosodwyd ar 18/0314), mae'r cais yma hefyd yn ceisio cymeradwyaeth am eu haddasu. (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig, yn ymgorffori trefniadau priffyrdd/mynediad diwygiedig ar 22 Gorffennaf. Derbyniwyd Adendwm Asesiad Trafnidiaeth (dyddiedig Awst 2019 - Fersiwn 1.2) 19 Awst 2019), Tir yn Ystad Ddiwydiannol Garth Works a Gorsaf Reilffordd Ffynnon Taf, i'r gorllewin o'r A470.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Mustafa Ali (Ymgeisydd)
- Mr Andrew Russell (Asiant)
- Ms Jennifer Cox (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Ymgeisydd, Mr M. Ali, yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebydd.

Parhaodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu trwy gyflwyno'r cais i'r Pwyllgor, ac awgrymodd y mân welliannau canlynol i'r Amodau, pe bai'r Aelodau'n bwriadu cymeradwyo'r cais:

- Amod 24 - Ymgorffori cyfeiriad at ychwanegu croesfan toucan a system canfod dolen, fel y nodir yn y sylwadau am y Briffordd, dyddiedig 02/09/19;
- Amod 25 - Ychwanegu pwynt bwled arall i gynnwys darparu maes parcio dros dro ar gyfer 148 o leoedd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ychwanegu'r Amodau sydd wedi'u hamlinellu uchod.

**115 CAIS: 19/0759**

**Newid defnydd o safle manwerthu A1 i safle bwyty/tecawê A3, a gosod system uned echdynnu, The Village Bakery, 18 Windsor Place, Ynys-y-bwl, Pontypridd.**

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Ffyniant a Datblygu.

**116 CAIS: 19/0501**

**Cynllun amlinellol (pob mater wedi'i gadw) ar gyfer eiddo sengl. (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig a Datganiad Dylunio a Mynediad 09/08/19), 1 Tylacoch, Llanhari, Pont-y-clun.**

Yn unol â chofnod 82 o Gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 5 Medi 2019, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu. Amlinellodd yr adroddiad ganlyniad yr ymweliad safle, a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019 mewn perthynas â'r cais. Roedd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu wedi argymhell cymeradwyo'r cais yma.

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd gan yr Aelod Lleol/Aelod o'r Pwyllgor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Owen, a oedd yn manylu ar ei bryderon ynghylch sefydlogrwydd wyneb y graig.

Aeth y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu ymlaen i gyflwyno'r cais, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**117 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 06/09/2019 a 18/09/2019.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm**

**Y Cynghorydd S Rees  
Cadeirydd.**